Peidio â gwahaniaethu: anabledd

Lynne Hill – Plant yng Nghymru

Egwyddorion sylfaenol: peidio â gwahaniaethu (Erthygl 2)

Anabledd

SYLWADAU TERFYNOL para.22. Mae'r pwyllgor yn pryderu oherwydd:
Nid yw'r egwyddor o beidio â gwahaniaethu'n cael ei dilyn yn fanwl ar gyfer yr holl blant ym mhob rhan o'r parti Gwladwriaeth a cheir anghydraddoldeb o hyd o ran mwynhau hawliau economaidd, cymdeithasol, diwylliannol, sifil a gwleidyddol, yn enwedig yn achos **plant sydd ag anableddau**, plant o deuluoedd tlawd, plant i bobl grwydrol Wyddelig a Roma, plant sy'n ffoaduriaid neu'n geiswyr lloches, plant mewn grwpiau lleiafrifol, plant yn y system gofal, plant sy'n cael eu cadw yn y ddalfa, a phlant rhwng 16 a 18 mlwydd oed.

Erthyglau perthnasol yn CCUHP: Mae Erthygl 23 yn uniongyrchol berthnasol.

Sylwadau ar y cynnydd

Deddfwriaeth

Mae Senedd y DU wedi gwneud deddfau sy'n ymwneud yn benodol â phobl anabl, a deddfau cyffredinol sy'n ymgorffori anghenion pobl anabl. Mae plant a phobl ifanc wedi'u cynnwys mewn deddfwriaeth sy'n ymwneud yn benodol ag anabledd yn rhinwedd eu hanabledd; ni chafwyd unrhyw ddeddfwriaeth sy'n ymwneud yn benodol â phobl ifanc mewn cysylltiad ag anabledd. Nod cyffredinol y ddeddfwriaeth yw lleihau'r gwahaniaethu a brofir gan bobl anabl, gan gynnwys, drwy oblygiad, plant anabl a galluogi pobl anabl drwy hynny i gael eu hawliau, a chael effaith ar gyfleoedd bywyd pobl anabl.

Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd (DGA) 1995 oedd y ddeddfwriaeth gyntaf yn erbyn gwahaniaethu a oedd yn ymwneud yn benodol â phobl anabl, ac roedd yn ymgorffori hawliau pobl anabl i gymryd rhan mewn cymdeithas sifil yn y gyfraith. Mae *Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd* yn gydnabyddiaeth bod pobl anabl yn wynebu gwahaniaethu am resymau sy'n ymwneud â'u hanabledd, sy'n eu hatal rhag gwireddu eu potensial fel unigolion.

Mae *Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd (DGA) 2005* yn diwygio ac yn ymestyn darpariaethau sydd yn DGA 1995 gan sicrhau bod cyfraith gwrthwahaniaethu'n cynnwys yr holl weithgareddau yn y sector cyhoeddus ac yn mynnu y bydd cyrff cyhoeddus yn hyrwyddo cyfle cyfartal ar gyfer pobl anabl.

Rhai o'r elfennau pwysig yn Neddf 2005 ar gyfer plant a phobl ifanc yw:

- Ei gwneud yn anghyfreithlon i weithredwyr cerbydau cludiant wahaniaethu yn erbyn pobl anabl, fel bod mwy o gyfleoedd i blant a phobl ifanc ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.

- Ei gwneud yn haws i bobl anabl gymryd eiddo ar rent ac i denantiaid wneud addasiadau sy'n gysylltiedig ag anabledd, fel y bydd plant anabl yn gallu cael cyfarpar ac addasiadau priodol.

- Sicrhau bod cyfraith gwrthwahaniaethu'n cynnwys yr holl weithgareddau yn y sector cyhoeddus.

- Rhoi'r sector cyhoeddus, gan gynnwys ysgolion, dan ddyletswydd i hybu cyfle cyfartal ar gyfer pobl anabl ac i ddileu gwahaniaethu. Mae'r ddyletswydd yn un rhagflaenorol a bydd cyrff cyhoeddus yn gorfod llunio Cynlluniau Gweithredu i ddangos sut y maent yn bwriadu cyflawni eu dyletswyddau newydd.

Cynhaliwyd chweched sesiwn y pwyllgor ad hoc ar y *Confensiwn Rhyngwladol ar Ddiogelu a Hyrwyddo Hawliau ac Urddas Pobl sydd ag Anableddau* yn Awst 2005. Mae'r Confensiwn drafft hwn yn cynnwys erthygl ar hawliau plant anabl. Wrth ei drafod, roedd pawb yn gytûn nad oedd yr erthygl 16 ddrafft yn ychwanegu fawr o sylwedd at yr hyn a geir eisoes yn Erthygl 23 yn y Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn. Roedd y Pwyllgor hefyd yn gytûn bod angen cynnwys rhai cyfeiriadau penodol at blant sydd ag anableddau yn y Confensiwn drafft, ond roedd gwahaniaeth barn ynghylch y modd i wneud hynny. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod hawliau plant anabl wedi'u nodi'n glir yn y Confensiwn newydd hwn, a bod y ddogfen hon yn ategu'r hawliau sydd wedi'u hymgorffori yn CCUHP.

Y brif ddarpariaeth yn y Mesur Cydraddoldeb sy'n mynd drwy Senedd y DU ar hyn o bryd sy'n ymwneud â phlant anabl yw'r bwriad i sefydlu Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (CCHD). Bydd y CCHD yn ymgymryd â gwaith y Comisiynau cydraddoldeb presennol (y Comisiwn Cyfle Cyfartal, y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol a'r Comisiwn Hawliau Anabledd) a bydd hefyd yn cael cyfrifoldeb dros hyrwyddo cydraddoldeb a gwrthweithio gwahaniaethu anghyfreithlon mewn tri maes newydd, sef tueddiad rhywiol, crefydd neu gredo, ac oedran. Bydd y CCHD yn gyfrifol hefyd am hybu hawliau dynol. Mynegwyd pryderon gan rai ym maes anabledd y bydd llai o bwyslais, heb y Comisiwn Hawliau Anabledd, ar hawliau pobl anabl, yn blant ac yn oedolion.

Polisi ac ymarfer

Yn 1999 cyflwynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru raglen *Rhoi Plant yn Gyntaf*, cynllun cyffredinol sy'n rhoi sylw i anghenion pob plentyn, gan gynnwys plant anabl. O blith yr 11 o amcanion sydd yn y rhaglen, amcan 6 sy'n ymwneud yn benodol â phlant anabl ac mae wedi'i rannu'n bedwar is-amcan.

- Cadw cofnod cywir a chyfredol o niferoedd ac amgylchiadau plant sydd ag anghenion arbennig a'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu ar eu cyfer.

- Cynyddu nifer y plant anabl sy'n derbyn gwasanaethau cymorth i deuluoedd – gan gynnwys seibiant tymor byr a gwasanaethau yn y cartref – a nifer yr oriau o wasanaeth a ddarperir i alluogi plant anabl a'u teuluoedd i gael bywyd sydd mor arferol ag y bo modd.

- Cynyddu nifer y plant anabl sy'n defnyddio gwasanaethau chwarae a hamdden cynhwysol, gan gynnwys cynlluniau chwarae yn ystod gwyliau, clybiau ar ôl ysgol a darpariaeth cyn ysgol gyda chymorth priodol os oes angen.

- Sicrhau bod rhieni sydd â phlant anabl yn cael gwybodaeth am wasanaethau gan y sectorau statudol a gwirfoddol drwy drefniadau rhwng asiantaethau.

Yn ymarferol, mae llawer o wahaniaethau o ran argaeledd ac ansawdd gwasanaethau. Mewn rhai meysydd, nid yw defnyddwyr gwasanaethau'n gweld fawr ddim o'r cynnydd y mae'r cynlluniau a nodwyd uchod yn ei geisio. Gobeithir y bydd cynllun *Rhoi Plant yn Gyntaf* Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi sylw penodol i anghenion plant anabl yn y dyfodol agos.

Lansiwyd y *Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru (FfGC)* ar 20 Medi 2005. Mae'n rhoi sylw manwl i blant a phobl ifanc anabl, gan nodi safonau sydd i'w cyrraedd drwy gamau gweithredu allweddol mewn cysylltiad â:

- Gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar blant a theuluoedd
- Mynediad i wasanaethau
- Ansawdd gwasanaethau
- Cyfnodau pontio.

Bydd y canlyniadau'n cael eu monitro drwy ddatblygu *Offeryn Hunanasesu ac Archwilio (SAAT)*, y bydd yr holl awdurdodau lleol yn ei ddychwelyd.

Tystiolaeth ystadegol (bylchau yn y data sydd ar gael)

Tîm *Rhoi Plant yn Gyntaf* Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n casglu'r ffigurau ar gyfer Cymru gyfan mewn cysylltiad â'i holl ddangosyddion, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â phlant anabl. Fodd bynnag, nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei chyhoeddi. Mae data sy'n ymwneud â phlant, sy'n cael eu casglu gan Uned Ddata Llywodraeth Leol, yn rhoi gwybodaeth am blant sydd ar gofrestrau amddiffyn plant neu yn y system 'derbyn gofal', ond nid yw'n categoreiddio plant yn ôl eu hanabledd.[1] Oherwydd hynny, mae'n amhosibl monitro newidiadau yn nifer y plant anabl y nodwyd eu bod 'mewn perygl' a'r nifer sydd yn y system 'derbyn gofal'.

Dylai'r holl awdurdodau lleol gadw cofrestr anabledd, i'w helpu i gynllunio gwasanaethau. Fodd bynnag, nid yw'r data hyn ar gael i'r cyhoedd. Gan nad yw cofrestru'n orfodol, byddai unrhyw ddata a geid yn ddangosol ac nid yn gynhwysfawr. Ceir rhwystrau pellach rhag casglu data, gan fod pob awdurdod lleol yn defnyddio ei feini prawf ei hun i bennu'r cymhwyster i gael gwasanaethau. Gallai hynny beri anawsterau wrth gymharu niferoedd y plant anabl sy'n hysbys i dîm gwasanaethau cymdeithasol pob awdurdod lleol.

Barn plant a phobl ifanc

Yn 2003 comisiynwyd adroddiad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru o'r enw *Ydych chi'n gwrando? Barn plant a phobl ifanc anabl yng Nghymru am y gwasanaethau a ddefnyddiant.*[2] Mae'r adroddiad hwn, a wnaeth arolwg o farn 105 o blant a phobl ifanc, yn dwyn nifer o faterion a negeseuon allweddol i sylw'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau.

Y negeseuon allweddol a gafwyd o'r adroddiad oedd:

1. Parch. Roedd yn bwysig gan blant a phobl ifanc anabl gael gwrandawiad, cael rhywun i siarad â hwy ac i gael eu trin gyda pharch. Roeddent am gael eu trin yn yr un modd â phlant sydd heb anabledd. Teimlent yn rhwystredig ac yn ofidus pan nad oedd hynny'n digwydd.

2. Darparu gwybodaeth. *"Mae llawer o blant a phobl ifanc anabl yn cael gwybodaeth 'yn ail law' drwy eu rhieni a'u gofalwyr, ac nid yn uniongyrchol"* [3]

3. Mynediad ac argaeledd. Mae plant a phobl ifanc anabl yn wynebu llawer o heriau a rhwystrau wrth geisio cael gwasanaethau. Roedd y rhwystrau'n rhai ffisegol, e.e. trafnidiaeth, ac yn rhai a oedd yn ymwneud ag agwedd meddwl, e.e. dim dewis o ran y ddarpariaeth a'r gwasanaethau sydd ar gael yn lleol.

4. Cymryd rhan. Mae plant a phobl ifanc am gymryd rhan mewn penderfyniadau ar wasanaethau a materion sy'n effeithio arnynt. Er bod yr adroddiad wedi canfod enghreifftiau o ymarfer da, nid yw'r sefyllfa'n gyson ledled Cymru, ac ychydig iawn o dystiolaeth a geir i ddangos bod plant a phobl ifanc anabl yn cymryd rhan yn y gwaith o gynllunio gwasanaethau.

5. Nid yw'r gwasanaethau ar gyfer pontio'n diwallu anghenion llawer o blant a phobl ifanc anabl ac nid ydynt yn cael yr un cyfleoedd neu ddewisiadau â phobl ifanc sydd heb anabledd.[4]

6. Mae bwlio'n bwnc pwysig iawn yng ngolwg plant anabl ac mae'n rhywbeth sy'n digwydd ym mhob math o sefyllfa mewn ysgolion. Roedd bwlio'n peri gofid a rhwystredigaeth i'r rhai a oedd yn gysylltiedig. Roedd gwahanol raddau o hyder gan blant a phobl ifanc anabl yng ngallu ysgolion a lleoliadau eraill i ddelio'n effeithiol â bwlio. Roedd llawer o blant a phobl ifanc anabl yn teimlo na fyddent yn cael gwrandawiad neu gefnogaeth ac yn teimlo na fyddent yn rhoi gwybod am achosion o fwlio rhag ofn y byddai'r sefyllfa'n gwaethygu.

Ym Mehefin 2005, cynhaliwyd ymgynghoriad gan Rwydwaith Pobl Anabl Ifanc, a drefnir gan Plant yng Nghymru, gyda grwp o bobl ifanc anabl i gael eu barn am y math o wybodaeth ar gyfer plant a phobl ifanc a fyddai o gymorth i wrthweithio bwlio. Mae canlyniadau'r gwaith hwn yn adleisio'r rhai sydd wedi'u nodi uchod.

Dathlodd Cymru *Flwyddyn Ewropeaidd Pobl Anabl* drwy gynnal cynhadledd ryngwladol i bobl anabl ifanc ym Mehefin 2003. Daeth 95 o bobl ifanc rhwng 14 a 24 oed o 35 o wledydd yn amrywio o Kazakhstan i Fongolia, at ei gilydd am wythnos ym Mhrifysgol Abertawe. Aelodau'r gynhadledd eu hunain a oedd wedi pennu'r amserlen a'r materion a oedd i'w trafod, fel bod Cymru'n arwain y byd o ran grymuso pobl anabl ifanc ac yn cynnig patrwm ar gyfer digwyddiadau i'r fath yn y dyfodol.

Lluniwyd maniffesto gan yr aelodau o'r enw *'Blaenoriaethau Lleol, Cenedlaethol a Rhyngwladol ar gyfer Pobl Anabl Ifanc'* yn mynnu y bydd pobl anabl ifanc yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar bob maes yn eu bywydau. Cyflwynwyd y maniffesto i banel o lunwyr penderfyniadau rhyngwladol allweddol mewn sesiwn llawn. Paratowyd rhestr o gamau gweithredu i'w cymryd gan yr holl aelodau wedi iddynt ddychwelyd i'w gwledydd eu hunain, gyda'r amcan o greu sylfaen ar gyfer rhwydwaith rhyngwladol o bobl anabl ifanc a fyddai'n cael ei arwain gan y bobl ifanc eu hunain. Mae Cymru'n dal i gefnogi pobl anabl ifanc drwy'r Rhwydwaith Pobl Anabl Ifanc sy'n cwrdd dair gwaith y flwyddyn, ac sydd wedi rhoi tystiolaeth i'r Cynulliad Cenedlaethol ar faterion sy'n ymwneud â diogelu plant a bwlio. Mae aelodau'r Rhwydwaith hwn yn cymryd rhan hefyd mewn grwp llywio i bobl anabl ifanc sy'n cynghori Pwyllgor Cyfle Cyfartal y Cynulliad Cenedlaethol.

Tystiolaeth arall am ansawdd

Yn 2003, cyhoeddodd y Comisiwn Archwilio adroddiad o'r enw *'Services for disabled children. A review of services for disabled children and their families'.* Ar gyfer yr astudiaeth hon, siaradwyd â 240 o blant a phobl ifanc anabl mewn pum ardal yng Nghymru a Lloegr.[5] Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod:

- Y ddarpariaeth o wasanaethau'n amrywio rhwng gwahanol ardaloedd. Er bod tystiolaeth o arferion da, gwelwyd bod gwasanaethau'n amrywio o ardal i ardal o hyd a bod y ddarpariaeth o wasanaethau'n dibynnu weithiau ar y pwysau y mae rhieni'n gallu eu rhoi;

- Bod rhai'n gorfod aros yn hir am ddarparu gwasanaethau a chyfarpar ac addasiadau, fel nad yw plant a phobl ifanc anabl yn cael cyfleoedd i ddatblygu ac integreiddio â'u cymdeithas;

- Rhaid i blant a phobl ifanc a'u teuluoedd fod yn barod i ymgodymu â thoreth o wybodaeth astrus ac amryw o brosesau asesu cyn gallu cael y gwasanaethau priodol;

- Mae'r galwadau am ofal sydd ar rieni, y nifer mawr o apwyntiadau â gwasanaethau a diffyg gofal plant addas yn effeithio ar allu rhieni i weithio. Mae mamau i blant anabl yn llai tebygol o fod mewn gwaith cyflogedig na mamau eraill, ac mewn llawer o sefyllfaoedd mae cyfleoedd gwaith ac enillion y tadau yn llai. Os yw teuluoedd yn hawlio budd-daliadau, maent yn cael bod y ffurflenni'n gymhleth ac yn anodd eu cwblhau, a gallant fod yn anymwybodol hefyd o'r holl fudd-daliadau sydd ar gael iddynt. Mae'r ffactorau hyn yn gallu amddifadu teuluoedd, i bob pwrpas, o weithgareddau arferol ac ansawdd bywyd derbyniol;

- Mae plant a phobl ifanc anabl yn wynebu rhwystrau mawr rhag chwarae gydag eraill, a rhag cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau ieuenctid. Profwyd anawsterau wrth gael gwybodaeth am wasanaethau, wrth fodloni meini prawf ar gyfer cymhwyster, wrth dderbyn sicrwydd y byddai anghenion y plentyn yn cael eu diwallu, ac wrth gyrraedd gwasanaeth oherwydd problemau o ran trafnidiaeth. Roedd llawer o blant a phobl ifanc anabl yn gorfod teithio'n bell i gael darpariaeth arbenigol. Roedd teuluoedd mewn ardaloedd gwledig yn ei chael yn arbennig o anodd teithio o gwmpas wrth ymgymryd â gweithgareddau o ddydd i ddydd ac yn mynd yn bell i gael gwasanaethau.[6]

Casgliad

Mae'r dystiolaeth sydd wedi'i chasglu ar gyfer yr adroddiad hwn yn rhoi darlun cymysg o sefyllfa plant anabl yng Nghymru. Er bod enghreifftiau o ymarfer da mewn cysylltiad â chyfranogi a darparu gwasanaethau, nid yw'r ymarfer yn gyson ledled Cymru. Nid yw'r hawliau sydd wedi'u mynegi yn CCUHP yn cael eu gwireddu'n llawn eto ar gyfer plant anabl mewn cysylltiad â'r gallu i gael gwybodaeth, mynediad cyfartal i wasanaethau, a chyfranogi. Mae'n anodd monitro cynnydd am fod diffygion sylweddol o ran casglu data.

Prif argymhellion

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, drwy weithio gydag awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau GIG, sicrhau:

- Bod comisiynwyr a darparwyr gwasanaethau'n rhoi blaenoriaeth i weithredu'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Gwasanaethau Mamolaeth.

- Bod data ystadegol sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc anabl, yn enwedig rhai sy'n ymwneud â'u diogelu, yn cael eu casglu a'u dadansoddi.

- Bod cymorth yn cael ei ddarparu er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc anabl yn gallu cymryd rhan drwy fanteisio ar amryw o gyfleoedd a bod eu barn yn cael ei hystyried yn fanwl ar lefel genedlaethol a lefel leol.

Ôl-nodiadau

[1] Gweler www.lgdu-wales.org.uk

[2] Claire Turner (2003) Ydych chi'n gwrando? Barn plant a phobl ifanc anabl yng Nghymru am y gwasanaethau a ddefnyddiant. Llywodraeth Cynulliad Cymru.

[3] Ibid t.6.

[4] Ategwyd y pwynt hwn mewn gwaith a wnaed gan Plant yng Nghymru yn 2004, pan gynhaliwyd cyfarfod undydd rhwng 20 o bobl anabl ifanc a Chomisiynydd Plant Cymru. Cyfeiriodd pob un o'r rhai a gymerodd ran at bryderon, anfodlonrwydd a rhwystredigaeth mewn cysylltiad â'r broses pontio yr oeddent wedi'i phrofi.

[5] Papur Briffio'r Comisiwn Archwilio i'r Sector Cyhoeddus. Services for disabled children. A review of services for disabled children and their families. Y Comisiwn Archwilio t.2.

[6] Ibid. t.29.